**Diogelu Gwent**
**Gwent Safeguarding**

# Llais y plentyn




## 1 Beth yw 'llais y plentyn'?

Mae hawl plentyn neu berson ifanc i gael ei glywed wedi'i chynnwys yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac wedi'i hatgyfnerthu gan ddeddfwriaeth a chanllawiau cenedlaethol, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

Mae 'llais y plentyn' yn cyfeirio at yr hyn y mae plant (gan gynnwys y rhai ar y cam cyn llefaru ac sy'n ddieiriau) yn ei ddweud yn uniongyrchol a'u hymddygiad yn ei gyfanrwydd. Mae hwyluso llais y plentyn yn cynnwys meithrin perthynas a chreu amgylchedd lle mae plant yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus i allu rhannu eu meddyliau a'u profiadau. Hefyd, mae'n golygu sicrhau ceisio safbwyntiau, barn a dewisiadau plant, a gwrando arnyn nhw, pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud sy'n effeithio ar eu bywyd.

## 2 Pam mae hi mor bwysig?

**Rhaid** i systemau diogelu effeithiol ganolbwyntio ar y plentyn. Gall problemau godi pan fydd ymarferwyr yn colli golwg ar anghenion neu farn plant, ac mae hyn wedi'i amlygu mewn nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant rhanbarthol a chenedlaethol. Dyma rai enghreifftiau:
Briff 7 Munud – Plentyn D | Diogelu Gwent;
Briff 7 Munud – Plentyn E | Diogelu Gwent;
Briff 7 Munud – Plentyn L | Diogelu Gwent.
Yn ôl yr hyn sydd wedi'i ddysgu yn genedlaethol, mae'r problemau cyffredin yn cynnwys achosion o beidio â gweld plant yn ddigon aml neu eu holi nhw am eu teimladau, ymarferwyr yn peidio â herio rhwystrau i weld plant a chael clywed eu llais, blaenoriaethu barn oedolion, anhawster o ran deall a myfyrio ar lais plant, a diffyg perthynas ddibynadwy rhwng ymarferwyr a phlant. Llais y plentyn: dysgu yn sgil adolygiadau achosion | NSPCC

## 3 Pwy?

Mae'n bwysig ystyried pwy sydd orau i geisio llais y plentyn, a'i ddeall. Mae'r hyn sydd wedi'i ddysgu yn sgil adolygiadau achosion yn dangos bod perthynas ddibynadwy yn allweddol i hyn.

Mae angen ystyried pwy sydd â'r berthynas orau â'r plentyn (er enghraifft, gall fod yn athro neu weithiwr ieuenctid). Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd ystyried rôl yr ymarferydd a'r person mwyaf priodol i geisio llais y plentyn.

Mae gan bob plentyn hawl i eiriolaeth. Yng Nghymru, mae'r 'cynnig gweithredol' yn caniatáu i blant a phobl ifanc fanteisio ar wasanaethau eirioli mewn amrywiaeth o amgylchiadau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion – er enghraifft, achosion troseddol – dylai cynnal asesiad gael ei ystyried o ran cynnwys cyfryngwr.

## 4 Sut gallwn ni wneud hyn?

Mae hon yn broses newidiol a pharhaus. Hyd yn oed ar ôl cael llais y plentyn neu berson ifanc, dylen ni bob amser geisio adolygu ac egluro ei ddymuniadau a'i deimladau.

**Gweld** y plentyn – **canolbwyntio** ar y plentyn a **gwrando** ar yr hyn y mae'n ei ddweud.
**Arsylwi** ar ryngweithio, a sylwi ar iaith y corff ac ymddygiad.
**Holi** ynghylch cam-drin ac esgeuluso.
**Gwrando** ar frodyr a chwiorydd a phlant eraill.
**Cofnodi** yr hyn rydych chi'n ei glywed ac yn ei weld.
**Dehongli** yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud, ac yn ei wneud, gan gyfeirio at ddangosyddion cam-drin a chamfanteisio.
**Darganfod** dymuniadau a theimladau'r plentyn.

Os oes sawl gweithiwr proffesiynol yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc, dylai hyn gael ei ystyried o hyd i sicrhau cysondeb ac osgoi ailadrodd yn achos y plentyn neu berson ifanc.

## 5 Rhwystrau i gyfathrebu effeithiol

Mae Adolygiadau Ymarfer wedi nodi rhwystrau cyffredin i gyfathrebu effeithiol, fel sydd wedi'i ddisgrifio isod. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gall rhwystrau eraill ddigwydd.

- Plant ag anghenion ychwanegol/anghenion cyfathrebu.
- Galluedd a dealltwriaeth.
- Anawsterau ymlyniad.
- Gwahaniaethau o ran diwylliant/iaith.
- Gorddibyniaeth ar naratif rhieni/gofalwyr.
- Anawsterau o ran siarad â phlentyn ar ei ben ei hun.
- Anawsterau o ran ymddiried mewn gweithwyr proffesiynol.
- Hunan-barch.
- Ystyried pobl ifanc yn bobl y mae'n 'anodd ymgysylltu' â nhw.

## 6 Goresgyn rhwystrau

Ni fydd gan bob plentyn neu berson ifanc y galluedd neu'r gallu i gyfathrebu drwy iaith. Mae angen i ymarferwyr fod yn hyblyg a chreadigol o ran eu dull gweithredu, i'w helpu nhw i fynegi eu dymuniadau a'u teimladau, a sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed. Dyma restr o enghreifftiau o sut mae modd goresgyn rhwystrau:

- Nodi dull cyfathrebu arferol y plentyn.
- Bod yn agored i ddehongli ymddygiad plant fel dull o gyfathrebu, a'r ystyr y tu ôl i newidiadau neu ymddygiad aflonyddgar.
- Dod i adnabod yr iaith ac ymadroddion y mae'r plentyn neu berson ifanc yn eu defnyddio.
- Gwrando ar frodyr a chwiorydd, ac oedolion eraill, ym mywyd y plentyn neu berson ifanc.
- Cadw'n broffesiynol-chwilfrydig wrth siarad â phlant a'r teulu i driongli gwybodaeth yn effeithiol a sicrhau bod llais y plant yn cael ei glywed.
- Bod yn addasadwy ac yn hyblyg wrth weithio i sicrhau bod y plentyn neu berson ifanc yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus wrth fynegi barn, dymuniadau a theimladau.
- Ystyried amser, lleoliad a llwyfan y gwaith ymgysylltu bob amser.

## 7 Adnoddau / Rhagor o wybodaeth

- Diogelu Cymru – Hyrwyddo cyfranogiad y plentyn
- Diogelu Cymru – Rhoi llais i blant a phobl ifanc yn y gynhadledd
- Llais y plentyn: dysgu yn sgil adolygiadau achosion | NSPCC
- Briff 7 Munud – Chwilfrydedd proffesiynol | Diogelu Gwent
- Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol | NYAS Cymru
- Offer meddwl sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn | Helen Sanderson Associates